Archwilio Cymru
Audit Wales

# Asesiad Strwythuredig 2020 – **Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2042A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saeneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Ynglŷn â'r adroddiad hwn | 4 |
| Negeseuon allweddol | 5 |
| Adroddiad manwl | |
| Trefniadau llywodraethu | 6 |
| Rheoli adnoddau ariannol | 12 |
| Cynllunio gweithredol | 15 |

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau gwaith asesu strwythuredig yr Archwilydd Cyffredinol yn 2020 ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd). Fe wnaed y gwaith i helpu i ateb gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol, dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014, i fod wedi'i argyhoeddi bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.

2 Digwyddodd gwaith Asesu Strwythuredig eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a achosir gan bandemig COVID-19. Ar 13 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fframwaith o gamau gweithredu i helpu i baratoi'r system ar gyfer yr hwrdd disgwyliedig o achosion COVID-19. Roedd y fframwaith yn cynnwys rhoi'r gorau i weithgarwch wedi'i gynllunio difrys a llacio targedau a threfniadau monitri ar draws y system iechyd a gofal. Cyflwynwyd trefniadau ariannu brys hefyd i hwyluso'r ystod eang o gamau gweithredu yr oedd eu hangen i ymateb ar frys i bandemig COVID-19.

3 Cytunwyd ar gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer 2020-21 a'r rheiny'n cael eu hategu gan ganllawiau chwarterol a oedd yn nodi ystyriaethau allweddol ar gyfer cynllunio'r ymateb i gam nesaf y pandemig, ar gyfer parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol, a symud tuag at adferiad graddol gwasanaethau rheolaidd.

4 Cynlluniwyd ein gwaith[1] yng nghyd-destun yr ymateb parhaus i'r pandemig i sicrhau dull digon pragmatig i helpu'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol gan hefyd leihau i'r eithaf yr effaith ar gyrff y GIG wrth iddynt barhau i ymateb i gam nesaf pandemig COVID-19. Fe wnaed ein gwaith rhwng mis Mehefin a mis Awst. Roedd ffocws allweddol y gwaith ar y trefniadau corfforaethol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rhoddodd archwilwyr sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion blaenorol[2] lle'r oedd y rhain yn ymwneud ag agweddau pwysig ar lywodraethu sefydliadol a rheolaeth ariannol yn enwedig dan yr amgylchiadau cyfredol.

5 Mae'r adroddiad yn grwpio ein canfyddiadau dan dair thema:

- trefniadau llywodraethu;
- rheoli adnoddau ariannol; a
- chynllunio gweithredol: i ategu'r ymateb parhaus i'r pandemig gan daro cydbwysedd â darparu gwasanaethau hanfodol eraill.

[1] Cafodd y broses o gyflawni ein gwaith ei chydlynu gydag adolygiad cyflym y tîm archwilio mewnol o lywodraethu a oedd yn cynnwys profi pellach ar reolaethau allweddol.

[2] Mae'r argymhellion blaenorol i'w gweld yn ein hadroddiad ar gyfer 2019.

## Negeseuon allweddol

6 Ar y cyfan, canfuom fod y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da yn ystod y pandemig. Fe addasodd y Bwrdd ei drefniadau llywodraethu i gynnal natur agored a thryloywder, cefnogi prosesau penderfynu ystwyth a sicrhau craffu ac arweinyddiaeth effeithiol yn ystod y pandemig. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i ddefnyddio gwersi a ddysgwyd i helpu i lunio trefniadau yn y dyfodol.

7 Fe sicrhaodd system rheoli risgiau'r Bwrdd Iechyd ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys diweddaru polisïau allweddol ac addasu ei drefniadau sicrwydd comisiynu.

8 Parhaodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn 2019-20. Fe wnaeth hefyd gyflawni £3.7 miliwn o arbedion yn 2020-21 ond mae COVID-19 yn effeithio ar ei allu i gyrraedd y targed arbedion o £5.6 miliwn a bennwyd ganddo ar gyfer 2020-21. Mae'n parhau i ragweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar gyfer 2020-21 yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd gwariant ychwanegol ar COVID-19 yn cael ei ariannu'n llawn. Mae asesiad y Bwrdd Iechyd o effaith ariannol net COVID-19 ar gyfer y flwyddyn yn amcangyfrif mai £20.1 miliwn fydd y gost. Cafodd gweithdrefnau rheolaeth ariannol eu haddasu i ddygymod yn ystod COVID-19 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

9 Cafodd cynlluniau gweithredol eu goleuo gan ymarferion modelu data ac maent yn darparu llwyfan da ar gyfer cyflawni blaenoriaethau strategol y Bwrdd Iechyd. Mae cynlluniau'n dangos ymrwymiad i les staff. Ceir trosolwg a chraffu da ar berfformiad ar y cyfan a'r modd y cyflawnir cynlluniau gweithredol ond mae gwybodaeth am wasanaethau wedi'u comisiynu'n gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd COVID-19.

10 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion newydd yn seiliedig ar ein gwaith yn 2020 ond rydym wedi nodi cyfleoedd ar gyfer gwella drwy'r adroddiad hwn. Byddwn yn adolygu'r cynnydd yn erbyn y rhain ac argymhellion o 2019 sy'n dal heb eu cwblhau fel rhan o'n gwaith yn 2021.

# Adroddiad manwl

## Trefniadau llywodraethu

11 Fe wnaeth ein gwaith asesu strwythuredig ystyried gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal trefniadau llywodraethu cadarn ac yntau hefyd yn gorfod ymateb yn gyflym i'r heriau digynsail a achosir gan y pandemig.

12 Canfu adroddiad adolygu cynghorol gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, **Trefniadau Llywodraethu Yn Ystod Pandemig COVID-19**, fod trefniadau llywodraethu dros dro'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'n effeithiol yn ystod y cyfnod a gwmpaswyd gan eu hadolygiad (Mawrth – Gorffennaf 2020). Fe wnaethom weithio ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac rydym wedi tynnu ar y canfyddiadau yn eu hadroddiad i ategu ein casgliadau.

13 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cynnal trefniadau llywodraethu da ar y cyfan yn ystod pandemig COVID-19**.

### Cynnal busnes yn effeithiol

#### Fe addasodd y Bwrdd ei drefniadau llywodraethu i gynnal natur agored a thryloywder, cefnogi prosesau penderfynu ystwyth a sicrhau craffu ac arweinyddiaeth effeithiol yn ystod y pandemig

##### Mae'r Bwrdd yn cynnal busnes yn agored a thryloyw

14 O ystyried y cyfyngiadau ar ymgynnull yn gyhoeddus a rheoliadau cadw pellter cymdeithasol o ganlyniad i bandemig COVID-19, fe gytunodd y Bwrdd y byddai cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n cael eu cynnal yn rhithwir o fis Mawrth. Nid oedd aelodau'r cyhoedd yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd, er bod opsiwn i gysylltu ag Ysgrifennydd y Bwrdd i ofyn am gael arsylwi ar gyfarfod rhithwir ar gael o fis Gorffennaf.

15 Fe wnaeth y Bwrdd ymrwymiad i gynhyrchu crynodeb o drafodion cyfarfodydd ac i'w cyhoeddi ar wefan y Bwrdd Iechyd o fewn wythnos. Ni chydymffurfiwyd â'r terfyn amser hwn bob tro, felly cafodd ei estyn i 10 diwrnod ac mae'r Bwrdd bellach yn cydymffurfio â'r terfyn amser. Cynhaliwyd cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf gan ddefnyddio Microsoft Teams; cafodd ei recordio a threfnwyd ei fod ar gael yn fuan wedyn. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol yn cael eu cynnal yng ngŵydd y cyhoedd gan gael eu hwyluso gan y cyfleuster ffrydio byw yn Microsoft Teams ac yna'u lanlwytho ar y rhyngrwyd.

16 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei wefan gyhoeddus. Cyhoeddir papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau ar y wefan ynghyd â chrynodeb o'r cyfarfod. Cyfeirir yn ystod y cyfarfod at atebion ysgrifenedig i gwestiynau a gyflwynwyd gan Aelodau Annibynnol cyn y cyfarfod a chaiff y rhain eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r cofnodion.

17 Roedd gwefan etifeddol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys ffurflen i alluogi aelodau'r cyhoedd i godi cwestiynau ar gyfer y Bwrdd cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Nid yw'r

ffurflen hon ar gael mwyach ar y wefan newydd. O ystyried mai ychydig o ddefnydd oedd yn cael ei wneud o'r cyfleuster, mae'r Bwrdd Iechyd yn ystyried sut i wella'i ymgysylltiad â'r cyhoedd yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

18 Mae aelodau'r Bwrdd yn ymgyfarwyddo â'r amgylchedd cyfarfodydd rhithwir ac yn addasu i'r ffyrdd newydd o weithio. Er y bu rhai problemau gyda'r dechnoleg, nid yw'r rhain wedi amharu ar gynnal cyfarfodydd, sydd wastad wedi rhedeg yn effeithiol ac ar amser.

## Sefydlwyd strwythurau cynllunio at argyfwng i ymateb i'r pandemig gyda chyfathrebu rheolaidd gyda'r Bwrdd a'r Cyngor Iechyd Cymuned

19 Rhoddodd y Bwrdd Iechyd ei Fframwaith Llywodraethu Pandemig COVID-19 ar waith ar 17 Mawrth 2020 yn seiliedig ar Fframwaith Pandemig a Chynllun Argyfyngau Sifil Powys. Dan arweiniad y Prif Weithredwr, fe ddarparodd Grŵp Aur Strategol COVID-19 (y cyfeirir ato fel y Grŵp Aur yn yr adroddiad hwn) arweinyddiaeth gref ar gyfer yr ymateb i COVID-19 a pharhad gofal ar gyfer poblogaeth Powys. Ni wnaed unrhyw newidiadau i Gynllun y Bwrdd ar gyfer Cadw Pwerau'n Ôl a'u Dirprwyo.

20 Roedd yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o'r Grŵp Aur ynghyd â swyddog cyswllt milwrol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Oedolion a Phlant yng Nghyngor Sir Powys. Cyfarfu'r Grŵp Aur yn ddyddiol tan fis Mai ac mae'n dal i gwrdd yn rheolaidd. Cafodd y Pwyllgor Gweithredol ei dynnu'n ôl heblaw am gwrdd ar gyfer materion a oedd wedi'u cadw'n ôl ar ei gyfer ond ailddechreuodd gwrdd yn rheolaidd ym mis Gorffennaf. Nid oedd unrhyw weithredu gan y Cadeirydd yn ystod y cyfnod hwn, er bod proses addas yn ei lle os bydd ei hangen yn y dyfodol.

21 Sefydlwyd rhaglen eglur a phriodol a seilwaith ategol gyda'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad yn arwain y swyddogaeth rheoli a chydgysylltu ganolog. Roedd ffrydiau gwaith yn cwmpasu'r model ymateb clinigol, y model gwasanaethau cymorth craidd a model y gweithlu. Sefydlwyd grŵp arwain clinigol, dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, i ddarparu cyfeiriad, arweinyddiaeth ac arweiniad clinigol. Darparodd aelodau o'r Grŵp Aur sesiynau briffio beunyddiol ar gyfer uwch reolwyr gyda mecanweithiau i unrhyw faterion yn codi gael eu huchgyfeirio'n ôl at y Grŵp Aur.

22 Cafodd Aelodau Annibynnol eu cynnwys trwy gydol cyfnod cynnar cam cyntaf yr ymateb i'r pandemig gyda negeseuon e-bost beunyddiol oddi wrth y Prif Weithredwr, papurau briffio gan y Cadeirydd a sesiynau briffio'r Bwrdd bob pythefnos. Cafodd cyfathrebu anffurfiol rhwng Aelodau Gweithredol ac Aelodau Annibynnol ei hwyluso yn ôl y gofyn hefyd.

23 Bu'r Bwrdd Iechyd yn cydweithio'n agos gyda'r sector gwirfoddol, Cyngor Sir Powys a rhanddeiliaid eraill. Roedd ymgysylltu'n cynnwys sgyrsiau rheolaidd rhwng Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Powys gan adeiladu ar berthnasoedd a oedd eisoes yn

gryf. Roedd cynrychiolwyr y CIC yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ymgysylltu a fu rhyngddynt a'r Bwrdd Iechyd, yn enwedig cynllunio a gofal sylfaenol, ac ni wnaethant godi unrhyw bryderon ynghylch gwasanaethau yn ystod y cyfnod hwn. Cyfarfu'r Fforwm Partneriaeth Lleol yn fwy mynych gyda chyfarfodydd bob pythefnos i sicrhau ymgysylltu da â staff ac Undebau Llafur. Fodd bynnag, ni chafodd y mecanwaith ffurfiol ar gyfer ymgynghori â'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Grŵp Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol ei ddefnyddio gan nad yw'r naill grŵp na'r llall wedi'i sefydlu'n llawn. Mae sefydlu'r ddau grŵp yn rhan o Raglen Lywodraethu Flynyddol y Bwrdd, y bu oedi gyda hi oherwydd COVID-19.

24 Mae'r Grŵp Aur yn dal i gwrdd yn wythnosol gan gael ei gefnogi gan dri grŵp trosolwg strategol (gweithrediadau, cartrefi gofal, a Phrofi, Olrhain, Diogelu) a'r grŵp arwain clinigol. Bydd y grwpiau trosolwg strategol yn cyflawni camau gweithredu a nodir yn y cynlluniau chwarterol, yn ogystal ag adnabod, rheoli ac uwchgyfeirio cynnydd, materion neu risgiau i'r Grŵp Aur fel y bo'n briodol.

## Mae'r Bwrdd wedi cynnal trosolwg ar ei drefniadau llywodraethu gydag ymrwymiad i ddysgu a gwella

25 Cynhyrchodd y Grŵp Aur ei adroddiad cyhoeddus cyntaf ar gyfer y Bwrdd ym mis Mai a oedd yn darparu trosolwg o'r ymateb i'r pandemig, gan gynnwys crynodeb o benderfyniadau, myfyrdodau a gwersi. Cyflwynwyd adroddiad manwl ar drefniadau llywodraethu yn ystod y pandemig i'r Bwrdd ym mis Mai hefyd. Dim ond diwygiadau dros dro a wnaed i'r Rheolau Sefydlog fel a wnaed yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru[3] ym mis Gorffennaf, a hynny'n ymwneud â dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac estyniad posibl i gyfnodau dal swydd Aelodau Annibynnol.

26 Fe wnaed newidiadau dros dro i rai o drefniadau pwyllgorau'r Bwrdd ar ddechrau'r pandemig. Cafodd cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a'r Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ym mis Ebrill eu canslo. Fe barhaodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i gwrdd fel a drefnwyd ac fe gymeradwyodd y weithdrefn rheolaeth ariannol interim, sy'n nodi'r trefniadau ariannol diwygiedig, yn ei gyfarfod ym mis Mai (gweler **paragraff 54**). Parhaodd y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch i gwrdd fel a drefnwyd ym mis Ebrill a thair gwaith ym mis Mehefin a mis Gorffennaf i sicrhau sylw i weithgarwch mewn perthynas â COVID-19, a materion hanfodol eraill, gan gynnwys pryderon ynghylch gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu gan Ymddiriedolaeth GIG Amwythig a Telford. Fe ailddechreuodd yr holl bwyllgorau gwrdd fel a drefnwyd ym mis Mehefin.

27 Cafodd yr holl gamau gweithredu yn log gweithredu'r Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch eu hadolygu yng ngoleuni'r pandemig ac aseiniwyd un o dair lefel blaenoriaeth iddynt gyda blaenoriaeth un yn cael sylw yn ystod y pandemig,

[3] Cylchlythyr Iechyd Cymru 2020/011, **Diwygiadau dros dro i reolau sefydlog enghreifftiol, cadw a dirprwyo pwerau – Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau'r GIG, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru**, Gorffennaf 2020.

blaenoriaeth dau cyn gynted â phosibl a blaenoriaeth tri unwaith y gellid ailddechrau busnes fel arfer. Cafodd penderfyniadau blaenoriaethu cychwynnol eu trafod yng nghyfarfod Pwyllgor mis Ebrill cyn cael eu trafod ymhellach a'u cadarnhau gan swyddogion Gweithredol eraill. Fe arweiniodd hyn at ohirio pump o gamau gweithredu blaenoriaeth is tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

28 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i ddysgu. Ym mis Mai, paratôdd y Bwrdd Iechyd bapur, **Adolygiad o'r Ymateb yng Ngham 1: Penderfyniadau, Myfyrdodau a Gwersi**. Mae'n nodi'r myfyrdodau a gwersi cychwynnol o'r pandemig ar draws y sefydliad, gan gynnwys barn staff ac undebau llafur ynglŷn â gweithio hyblyg, cyflymu datrysiadau digidol, arweinyddiaeth glinigol, gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu.

29 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad mwy cynhwysfawr o wersi i ddeall beth sydd wedi cael ei ddysgu trwy ail-saernïo prosesau cynllunio a darparu i ymateb i'r pandemig. Cydnabu'r Bwrdd Iechyd fod arloesi arbennig wedi digwydd yn ystod y pandemig, ar draws yr holl sefydliadau, sectorau a chymunedau ym Mhowys. Mae dull pedair haen yn cael ei defnyddio fel a nodir yng nghynllun gweithredol chwarter dau. Arolwg a anfonwyd at yr holl staff ar ddiwedd mis Mehefin i ofyn am wybodaeth am offer, systemau ac arferion arloesol newydd y maent wedi'u defnyddio i addasu i'r newidiadau cyflym mewn ymateb i bandemig COVID-19 oedd cam un. Roedd y camau eraill yn ceisio deall y newidiadau a wnaed mewn mwy o fanylder trwy grwpiau ffocws ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yn olaf, bydd deilliannau o'r ymarferion casglu data ac adolygiadau thematig yn cael eu dosbarthu ar draws y Bwrdd Iechyd i wella prosesau cynllunio a pherfformiad ar gyfer y dyfodol.

## Fe wnaeth Tîm Gweithredol cydnerth a gefnogwyd gan y Bwrdd arwain y sefydliad yn ystod yr ymateb i COVID-19

30 Roedd y Tîm Gweithredol yn gryf, yn gydlynol ac yn gydnerth trwy gydol cyfnod y pandemig. Nid oedd unrhyw swyddi gwag na phenodiadau interim gyda phenodiadau parhaol i'r Tîm Gweithredol wedi'u llenwi'n gynnar yn 2020, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd. Fe ymddeolodd y Cyfarwyddwr Meddygol ar ôl cam cyntaf yr ymateb i'r pandemig gyda threfniadau interim priodol yn cael eu sicrhau nes gellir recriwtio olynydd parhaol.

31 Mae'r Bwrdd dan bwysau am bod ganddo ddwy swydd wag ar gyfer Aelodau Annibynnol, tra bo'r Cadeirydd a phum Aelod Annibynnol profiadol i fod i sefyll i lawr yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Cafodd y broses Penodiadau Cyhoeddus ei hatal yn ystod y pandemig ond mae i fod i ailddechrau ym mis Hydref. I gefnogi'r Bwrdd yn ystod y cyfnod pontio hwn, cafodd cyfnod dal swydd un Aelod Annibynnol ei estyn am flwyddyn. Bu cworwm yn holl gyfarfodydd y pwyllgorau, er bod y risg o fod heb gworwm yn cynyddu gyda llai o Aelodau Annibynnol. Bydd yn bwysig cynllunio a pharatoi ar gyfer sefydlu aelodau newydd a'u heffaith ar ddiwylliant y Bwrdd.

32 Cafodd cynllun datblygu'r Bwrdd i gefnogi Bwrdd effeithiol ei ddiweddaru a'i adolygu gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Nod y cynllun yw arfogi aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau ar y cyd ar draws ehangder busnes y Bwrdd.

## Systemau sicrwydd

### Mae systemau sicrwydd a oedd yn hanfodol yn ystod yr ymateb i COVID-19 wedi cael eu cynnal

#### Fe wnaeth system rheoli risgiau'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i ymateb i risgiau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19

33 Fel a nodwyd yn ein hadroddiad ar ein Hasesiad Strwythuredig yn 2019, mae gan y Bwrdd Iechyd system rheoli risgiau sy'n aeddfedu gyda fframwaith rheoli risgiau diwygiedig wedi'i roi ar waith ym mis Medi 2019.

34 Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, fe wnaeth y Grŵp Aur ddatblygu cofrestr risgiau sydd wedi'i neilltuo i COVID-19 a'i monitro'n rheolaidd. Mae risgiau sydd wedi'u cynnwys yng nghofrestr risgiau COVID-19 yn ymwneud â threfniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer ymateb i COVID-19 a hynny yn unig. Caiff risgiau sy'n berthnasol i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd eu cofnodi trwy'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a chaiff risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau eu cofnodi trwy Gofrestrau Risgiau Cyfarwyddiaethau.

35 Cafodd y risgiau â'r sgôr uchaf ar y gofrestr risgiau COVID-19 eu cyflwyno i'r Bwrdd am y tro cyntaf ym mis Mai fel rhan o adolygiad y Bwrdd Iechyd o'r ymateb yng ngham un. Roedd risgiau â sgôr uchel ar y pryd yn cynnwys materion gyda systemau, megis cyflenwi a gosod cyfarpar diogelwch personol, profi a chamau i liniaru'r risg o drosglwyddo mewn lleoliadau caeëdig. Cafodd y Bwrdd fersiwn lawn o'r gofrestr risgiau COVID-19 am y tro cyntaf ym mis Medi. Roedd gan bob risg sgôr is ym mis Medi nag ym mis Mawrth.

36 Adroddodd y Pwyllgor Gweithredol wrth y Bwrdd ym mis Mai eu bod wedi adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, gan asesu a oedd angen i unrhyw sgoriau a roddwyd i risgiau presennol newid oherwydd y pandemig. Ni wnaeth y Bwrdd adolygu na diwygio'i barodrwydd i dderbyn risg. Fe ychwanegwyd risg newydd ym mis Mawrth 2020: CRR014 'effaith andwyol bosibl ar barhad busnes a darparu gwasanaethau o ganlyniad i achos pandemig o glefyd heintus (COVID-19)'. Roedd dwy risg lle cynyddodd y sgôr yn cynnwys risgiau i gynaliadwyedd gwasanaethau wedi'u comisiynu a'r effaith ar fodelau gwasanaethau o ganlyniad i ail-gyflunio gwasanaethau'n sylweddol yn Ne Powys gydag Ysbyty Prifysgol Grange yng Nghwm-brân yn agos yn gynnar .

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i wella trefniadau llywodraethu ansawdd, er bod rhagor i'w wneud

37 Roedd dangosfwrdd y Grŵp Aur yn rhoi data da i'r Bwrdd Iechyd ynghylch ble yr oedd cleifion yn mynd i gael gofal. Sefydlodd y Bwrdd Iechyd fecanweithiau i leihau'r risg o niwed i gleifion nad oeddent yn cael y gofal yr oedd ei angen arnynt. Roedd ymarferwyr yn gallu siarad gydag unrhyw un oedd â phryderon ynghylch mynediad at ofal. Cyflwynwyd ymgyngoriadau digidol ac fe barhaodd gwasanaethau iechyd meddwl i'r graddau yr oedd hynny'n ymarferol. Roedd rhestrau aros yn cael eu brysbennu. Mae'r effaith ar bobl nad oeddent yn mynd i gael gofal yn ystod y pandemig yn rhan o bryder cenedlaethol, er bod atgyfeiriadau'n dychwelyd i lefelau cyn COVID-19 yn ystod yr haf.

38 Nid yw data i oleuo fframwaith sicrwydd comisiynu'r Bwrdd Iechyd wedi bod ar gael ers mis Mawrth oherwydd COVID-19. I liniaru hyn, fe gynyddodd y Bwrdd Iechyd fynychder cyfarfodydd gyda'i ddarparwyr ac mae hefyd yn rhan o'r trefniadau ymateb i argyfwng gyda darparwyr yn Lloegr.

39 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei drefniadau ansawdd. Cytunodd y Bwrdd ar fframwaith ansawdd clinigol 2020-2023 ym mis Ionawr 2020 gan ddwyn ynghyd yr holl gamau gweithredu sy'n cefnogi prosesau llywodraethu ansawdd effeithiol. Datblygwyd cynllun cyflawni i gyflawni'r fframwaith ac fe'i rhannwyd gyda'r Bwrdd ym mis Mehefin 2020. Bydd unrhyw feysydd ar gyfer gwella'n cael sylw trwy gynllun cyflawni'r fframwaith ansawdd clinigol neu'r rhaglen lywodraethu flynyddol.

40 Cynhaliwyd tri chyfarfod gan y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin a mis Gorffennaf i ddal i fyny ar fusnes a darparu sicrwydd ynghylch materion allweddol. Ymdriniwyd ag eitemau ar yr agenda yr oedd disgwyl iddynt gael eu cynnwys yn unol â chyhoeddiad Llywodraeth Cymru, 'Nodyn Cyfarwyddyd: Cyflawni Cyfrifoldebau Pwyllgorau Bwrdd yn ystod COVID-19'. Rydym wedi gweld defnydd da o sesiynau pwyllgor preifat i drafod materion ansawdd sensitif.

41 Yn ystod chwarter cyntaf 2020-21, cafodd y Bwrdd Iechyd 36 o bryderon ffurfiol, sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019-20. Caiff y gostyngiad ei briodoli i bandemig COVID-19 a'r ffaith bod nifer o wasanaethau wedi cau dros dro. Roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud yn bennaf â mynediad at wasanaethau ac apwyntiadau. Cafodd y Bwrdd Iechyd chwe phryder ffurfiol ynghylch gwasanaethau wedi'u comisiynu yn chwarter un hefyd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wella rheolaeth effeithiol ar bryderon gan bod y Bwrdd Iechyd wedi'i chael yn anodd cyrraedd y targed, sef ymateb i 75% o'r pryderon ffurfiol o fewn 30 niwrnod gwaith.

42 Cymeradwywyd polisi Gweithio i Wella diwygiedig gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019. Cymeradwywyd polisi ar wahân ar gyfer mynd i'r afael â digwyddiadau difrifol ym mis Mehefin 2020 yn dilyn adolygiad ôl-weithredol cynhwysfawr o ddigwyddiadau difrifol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cyflawni'r polisïau yn mynd rhagddynt fel a nodir yng nghynllun cyflawni'r fframwaith sicrhau ansawdd. Mae gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu dull cadarn o ddysgu gwersi. Mae'r cynnydd wedi bod yn araf o ran mynd i'r afael â gwendidau ar gyfer archwilio clinigol ac adolygiadau o farwolaethau, er bod y rhain yn feysydd sy'n cael sylw ar hyn o bryd.

43 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses ar gyfer ymateb i Rybuddion a Hysbysiadau Diogelwch Cleifion cenedlaethol. Mae adolygiad o'r system ar gyfer eu rhoi ar waith ar y gweill a bydd yn cael ei diwygio fel y bo angen.

44 Er bod ymweliadau wedi'u hatal yn ystod y pandemig, rhoddwyd ystyriaeth i gefnogi profiad cadarnhaol ar gyfer cleifion gyda darpariaeth i gysylltu cleifion a theuluoedd yn rhithwir. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd letya ymwelwyr hefyd lle'r oedd hyn yn hanfodol, megis adeg geni plentyn neu i deulu agos ymweld ag aelodau o'u teulu a oedd yn cael gofal ar ddiwedd eu hoes. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal rhaglen o waith i ddiweddaru ei fframwaith profiad cleifion fel rhan o'r fframwaith sicrwydd gwella ansawdd clinigol.

### Cafodd yr holl argymhellion archwilio eu hadolygu a'u blaenoriaethu gyda'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cael diweddariadau ar gynnydd

45 Cafodd y broses ar gyfer tracio'r modd y rhoddir argymhellion archwilio mewnol ac allanol ar waith ei chryfhau'n sylweddol y llynedd. Er bod tracio rheolaidd wedi cael ei ohirio yn ystod yr ymateb cychwynnol i COVID-19, fe wnaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol adolygu a blaenoriaethu'r holl argymhellion yn ddiweddarach.

46 Mae'r tri argymhelliad o'r adroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2019 wedi cael eu rhoi ar waith yn rhannol ond fe ohiriwyd gwaith i'w rhoi ar waith yn llawn tan chwarter pedwar oherwydd COVID-19. Yn 2019, fe wnaethom nodi nad oedd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'n gallu craffu'n fanwl ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf cyn cyfarfodydd y Bwrdd ac fe argymhellon ni fod y drefn cyfarfodydd yn cael ei hadolygu i sicrhau bod amseriad cyfarfodydd yn cefnogi craffu manwl effeithiol. Er mai dyhead y Bwrdd Iechyd yw bod y Pwyllgor yn cael yr adroddiadau cyllid cyn cyfarfodydd y Bwrdd, nid yw cylchoedd cyfarfodydd yn cefnogi'r dyhead hwn eto.

47 Yn ogystal ag ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion ffurfiol, fe wnaeth y Bwrdd Iechyd nodi ei ddull ar gyfer mynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd ar gyfer gwelliant o'r adroddiad ar Asesiad Strwythuredig 2019 hefyd. Cafodd y rhaglen ei hatal i raddau helaeth yn ystod COVID-19, er bod peth gwaith yn parhau mewn meysydd allweddol.

## Rheoli adnoddau ariannol

48 Fe wnaeth ein gwaith ystyried perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, newidiadau i reolaethau ariannol yn ystod y pandemig a threfniadau ar gyfer monitro perfformiad ariannol ac adrodd arno.

49 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi addasu ei weithdrefnau rheolaeth ariannol i ddygymod yn ystod COVID-19 ond mae risg gynyddol i'w allu i fantoli'r cyfrifon ar ddiwedd 2020-21**.

## Cyflawni amcanion ariannol allweddol

### Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol yn gyson ond mae effaith COVID-19 ar gyflawni cynlluniau arbedion cyfredol yn creu risg o ddiffyg ariannol ar ddiwedd 2020-21

50 Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2019-20 gan fantoli'r cyfrifon a chadw gwarged bach (£55,000). Fe wnaeth hefyd gyflawni £3.47 miliwn (98%) o'i arbedion wedi'u cynllunio, gan gynnwys creu incwm. Cafodd y diffyg mewn arbedion ei unioni gan danwariannau gweithredol. Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd ddyletswyddau ariannol i fantoli'r cyfrifon dros gyfnod treigl o dair blynedd rhwng 2017-18 a 2019-20 hefyd ac i fod â chynllun tymor canolig integredig (CTCI) ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2021-22 .

51 Mabwysiadodd y Bwrdd Iechyd ddull gwahanol o ddyrannu a rheoli arbedion ar gyfer 2020-21 gan edrych ar draws llwybrau cyfan i sicrhau newid a gwelliannau a oedd yn dwyn gwerth go iawn. Nododd darged arbedion o £5.6 miliwn er mwyn mantoli'r cyfrifon. Fodd bynnag, mae COVID-19 yn effeithio ar allu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni'r arbedion hyn. Fe wnaeth trefniadau dros dro mewn perthynas â chytundebau hirdymor hi'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gytuno ar drefniadau contract bloc gyda'i ddarparwyr yn Lloegr i sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn ystod y pandemig. Mae'r trefniadau hyn yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i symud adnoddau i ffwrdd oddi wrth weithgarwch gofal iechyd wedi'i gynllunio i wrthbwyso gwariant ar COVID-19. Mae'r Bwrdd Iechyd yn pwyso a mesur effaith bosibl y trefniadau cytundebau hirdymor dros dro i ategu trafodaethau am gostau a gofynion ariannu yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a'r GIG yn Lloegr o ystyried ei bod yn debygol na fydd gofal dewisol neu ofal arall wedi'i gynllunio'n cael ei ddarparu.

52 Yn y cyfamser, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i adolygu ei gynlluniau arbedion ar ddiwedd pob mis. Ym mis 5, roedd yn amcangyfrif diffyg mewn arbedion o oddeutu £3.9 miliwn oherwydd yr ymateb parhaus i COVID-19 a mae wedi diwygio ei darged arbedion a'i ostwng i £1.8 miliwn. Mae'r Bwrdd Iechyd yn dynodi y gallai'r ffigwr hwn ostwng ymhellach gan ddibynnu ar ganlyniad adolygiadau dilynol. Erbyn diwedd mis Awst, roedd wedi cyflawni £55,000 o arbedion gyda mwy nag £1.2 miliwn i gael eu cyflawni yn chwarter pedwar. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd y Bwrdd Iechyd yn eu cyflawni.

53 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ragweld y bydd yn mantoli'r cyfrifon ar gyfer 2020-21. Y dybiaeth yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu gwariant COVID-19 yn llawn, gan gynnwys pwysau cysylltiedig o ganlyniad i beidio â chyflawni arbedion. Mae asesiad y Bwrdd Iechyd o effaith ariannol net COVID-19 am y flwyddyn yn amcangyfrif mai £20.1 miliwn fydd y gost gyda £4.7 miliwn o wariant gweithredol ychwanegol wedi'i ysgwyddo hyd at ddiwedd mis Awst. Cwrddwyd â chyfran fach (6%) o'r gwariant ychwanegol hwn o ostyngiadau wedi'u cynllunio mewn costau a llithriant ar fuddsoddiadau arfaethedig oherwydd COVID-19. Ar ddiwedd mis Awst, roedd y Bwrdd Iechyd mewn diffyg o £0.27 miliwn yn erbyn y CTCI gyda

gorwariannau wedi’u priodoli i gostau cyffuriau gofal sylfaenol a chostau Gofal Iechyd Parhaus, nid COVID-19. Mae’r gofrestr risgiau corfforaethol yn nodi bod risg peidio â chyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli’r cyfrifon yn gymedrol.

## Rheolaethau ariannol

### Fe wnaed newidiadau i reolaethau ariannol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a chawsant eu monitro fel oedd yn ofynnol

54 Cynhyrchodd y Bwrdd Iechyd Weithdrefn Rheolaeth Ariannol Interim fanwl yn seiliedig ar egwyddorion llywodraethu ariannol Llywodraeth Cymru a chanllawiau a gyhoeddwyd ganddi ym mis Mawrth 2020. Mae’r Weithdrefn Rheolaeth Ariannol Interim yn cwmpasu ystod eang o reolaethau ariannol, megis gofynion caffael a therfynau dirprwyedig, yn ogystal â monitro’r sefyllfa ariannol ac adrodd arni, gan gynnwys cyflawni arbedion.

55 Cafodd y Weithdrefn Rheolaeth Ariannol Interim Fersiwn 1 ei chymeradwyo gan Grŵp Aur y Bwrdd Iechyd ar 13 Ebrill 2020 a’i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mai. Mae’r Weithdrefn Rheolaeth Ariannol Interim yn dal i fod yn ei lle gyda newidiadau wedi’u gwneud mewn ymateb i ganllawiau neu ofynion Llywodraeth Cymru a fersiwn pump wedi’i chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Medi.

56 Mae Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog y Bwrdd yn dal i fod yn ddilys gyda newidiadau bach iawn. Mae’r Weithdrefn Rheolaeth Ariannol Interim yn drech na rhai elfennau o’r gweithdrefnau rheoli safonol ac arferol i fynd i’r afael â chyflymder y newid sy’n ofynnol ar gyfer COVID-19. Er enghraifft, cafodd y gofyniad i gael tri dyfynbris ar gyfer nwyddau neu wasanaethau dros £5,000 ond o dan £25,000 ei dynnu’n ôl. Cafodd rhestr o archebion a broseswyd y tu allan i’r broses gaffael £25,000 arferol ei rhannu gyda’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 25 Gorffennaf 2020. Mae’r rhain yn cynnwys eitemau megis gwariant ar seilwaith ar gyfer capasiti ocsigen ychwanegol yn y ddau brif ysbyty.

57 Hefyd, fe wnaeth y Weithdrefn Rheolaeth Ariannol Interim sefydlu gweithdrefnau sy’n ofynnol i gofnodi a rheoli gwariant o ganlyniad i COVID-19. Sefydlwyd un ganolfan gostau ar ddechrau’r pandemig i gofnodi’r costau refeniw ar gyfer COVID-19. Canfu’r adolygiad cyflym o lywodraethu gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol fod y canolfannau costau hyn yn gyson â’r terfynau cymeradwyo ar system Oracle a nodir yn y Weithdrefn Rheolaeth Ariannol Interim.

58 Fe ddiweddarodd y Bwrdd Iechyd ei Weithdrefn Rheolaeth Gyllidebol yn unol ag argymhellion y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Roedd un o'r newidiadau allweddol yn cynnwys egluro graddfeydd amser ar gyfer cyhoeddi’r llythyr atebolrwydd blynyddol i ddeiliaid prif gyllidebau o ystyried problemau gyda chymeradwyaeth amserol gan swyddogion gweithredol dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd llythyrau atebolrwydd 2020-21 yn barod ym mis Mawrth 2020, ond fe amharodd

COVID-19 ar y broses hon. Ar adeg ein gwaith archwilio, nid oedd y llythyrau atebolrwydd wedi cael eu llofnodi gan ddeiliaid cyllidebau eto.

59 Mae'r trefniadau adrodd ariannol yn gyson â gofynion monitro Llywodraeth Cymru. Fe wnaed gwelliannau i'r modd y cyflwynir gwybodaeth ac mae sylwebaeth fwy manwl yn cael ei chynnwys yn yr adroddiadau ariannol rheolaidd a gyflwynir i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd adolygu'r gwariant cyfalaf ac ystadau a'i drafod yn fanwl.

# Cynllunio gweithredol

60 Fe wnaeth ein gwaith ystyried y cynnydd gan y Bwrdd Iechyd i ddatblygu a chyflawni cynlluniau gweithredol chwarterol i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19 ac i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau hanfodol eraill yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar adeg ein gwaith, roedd y ffocws ar wasanaethau hanfodol gyda'r nod o adfer gweithgareddau arferol a rheolaidd pan fo'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

61 Canfuom fod **cynlluniau gweithredol yn cael eu goleuo gan ymarferion modelu data ac yn dangos ymrwymiad clir i les staff ac, er bod cynnydd a pherfformiad yn cael eu monitro a bod adroddiadau'n cael eu llunio arnynt, mae gwybodaeth ar wasanaethau wedi'u comisiynu'n gyfyngedig ar hyn o bryd**.

## Datblygu'r cynllun

### Caiff cynlluniau chwarterol eu goleuo gan ymarferion i fodelu capasiti a'r galw ac maent yn darparu llwyfan da i gyflawni blaenoriaethau strategol

62 Cafodd proses y CTCI ar gyfer 2020-2023 ei hatal i alluogi sefydliadau i ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer COVID-19 ac i gyfeirio adnoddau at heriau gweithredol. Fodd bynnag, bu'n ofynnol i gyrff y GIG ddatblygu cynlluniau gweithredol ailadroddol ar gyfer pob chwarter. I roi cymorth i baratoi ar gyfer ymchwydd sylweddol mewn achosion COVID-19, fe gynhyrchodd y Bwrdd Iechyd gynllun ar gyfer cam cyntaf yr ymateb i'r pandemig yn seiliedig ar y fframwaith o gamau gweithredu ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 13 Mawrth. Wedyn fe gynhyrchwyd cynllun cam dau a oedd yn cwmpasu chwarter un i gyd.

63 Roedd cynlluniau chwarterol yn adlewyrchu'r gofynion yn Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru. Roedd y cynllun chwarter un yn un lefel uchel o ystyried her datblygu'r cynllun ar yr un pryd ag yr oedd ei ddarparwyr gwasanaethau'n datblygu eu cynlluniau hwy. Mae cynllun chwarter dau, a oedd yn rhoi sylw i adborth Llywodraeth Cymru, yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu bwriadau darparwyr.

64 Cafodd cynllun drafft chwarter un ei gymeradwyo gan y Grŵp Aur a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r terfyn amser, sef 18 Mai a'i gymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 27 Mai. Cafodd cynllun drafft chwarter dau ei drafod yn y Pwyllgor Strategaeth a Chynllunio ar 8 Gorffennaf, ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y terfyn amser estynedig y cytunwyd arno, sef 9 Gorffennaf, a'i gymeradwyo gan y Bwrdd ar 29 Gorffennaf 2020.

65 I gefnogi trefniadau cynllunio at argyfwng yn ystod y pandemig, bu'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i bartneriaid ar Fforwm Cydnerthedd Lleol Dyfed Powys ac roedd y Bwrdd Iechyd yn aelod o drefniadau gorchymyn a rheoli Arian ei ddarparwyr yn Lloegr.

66 Tanategir y cynlluniau chwarterol gan waith i fodelu capasiti a'r galw. Cafodd y broses fodelu ei chryfhau gyda dyfodiad ymgynghorydd arbenigol ar gyfer meddygaeth iechyd y cyhoedd. Roedd gwaith i fodelu capasiti a'r galw ar gyfer cleifion ym Mhowys gyda neu heb COVID-19 yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ac yn defnyddio model Warwick a thybiaethau modelu byrdymor lleol.

67 Roedd capasiti ymchwydd ychwanegol fel darparwr a chomisiynydd gwasanaethau wedi'i nodi yng nghynlluniau chwarter un a dau. Yng ngham cyntaf yr ymateb i'r pandemig, trefnwyd capasiti ychwanegol gan y sector gofal preifat ond ni chafodd ei ddefnyddio. Ni adeiladwyd unrhyw ysbytai maes, er bod cynlluniau wedi'u paratoi ar gyfer ysbyty maes ar Faes y Sioe Frenhinol, y gellir eu rhoi ar waith o fewn chwe wythnos os bydd angen. Mae cynlluniau sy'n seiliedig ar y tybiaethau modelu'n darparu ar gyfer cynnydd mewn capasiti gwelyau os bydd gweithgarwch COVID-19 yn tyfu. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fel rhan o ddull rhanbarthol o gomisiynu ysbytai maes a chapasiti gan y sector annibynnol. Mae gwaith i ddatblygu'r system Profi, Olrhain, Diogelu a'i rhoi ar waith yn mynd rhagddo hefyd.

68 Mae'r cynlluniau chwarterol yn nodi y bydd gwaith cynllunio yn y dyfodol yn ystyried gwersi lleol, gan gynnwys yr wybodaeth a gaiff ei chasglu ar hyn o bryd fel rhan o'r ymarfer 'Dysgu ar gyfer y Dyfodol'. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ymrwymedig i gyfathrebu ac ymgysylltu parhaus gyda CIC Powys, ac adborth gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i fwydo i mewn i'r model ymateb clinigol a'r broses o gynllunio gwasanaethau.

69 Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar yn mynd rhagddo gyda'r ymateb parhaus i COVID-19 yn dal i fod yn flaenoriaeth ochr yn ochr â phwysau'r gaeaf, gan gynnwys ffliw. Hefyd, bydd angen i'r cynlluniau hyn ystyried agoriad cynnar Ysbyty Prifysgol Grange yng Nghwm-brân o fis Tachwedd 2020, a fydd yn effeithio ar oddeutu 46 o lwybrau clinigol ledled De Powys. Bydd yr effaith ar y cyhoedd yn cael ei hystyried o fewn gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu fel rhan o Raglen De Cymru ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

70 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y gallai'r CTCI ar gyfer y tair blynedd o 2020-21 gael ei gymeradwyo cyn i'r broses gael ei hatal oherwydd COVID-19. Cafodd y cerrig milltir o fewn y cynllun blynyddol ar gyfer 2020-21 eu hadolygu a'u diwygio ym mis Mai. Ochr yn ochr â chynllun chwarter dau, fe ddiwygiodd y Bwrdd Iechyd

ei flaenoriaethau strategol, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf. Cafodd deuddeg o feysydd allweddol eu dewis ar y sail, os nad yw gwaith â ffocws pendant yn cael ei wneud i'w symud ymlaen, neu os yw'r gwaith hwnnw'n cael ei ohirio, bod y risgiau'n sylweddol yn y tymor byr a chanolig. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys Rhaglen Gogledd Powys a chyflawni llwybrau gofal a deilliannau gwell ar gyfer gofal anadlol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei gynlluniau'n gyson wrth i'r sefyllfa gyda COVID-19 newid.

## Adnoddau i gyflawni'r cynllun

### Mae heriau o ran staffio'n cael sylw ac mae ymrwymiad cryf i les staff

71 Ym mis Ionawr 2020, fe gymeradwyodd y Bwrdd Iechyd Dyfodol y Gweithlu – Fframwaith strategol ar gyfer gweithlu Iechyd a Gofal Powys. Darparodd hwn fframwaith da ar ddechrau'r pandemig. Y Grŵp Aur sy'n gyfrifol am gydgysylltu prosesau penderfynu strategol a defnydd effeithiol o adnoddau gydag un o'r tair ffrwd waith yn canolbwyntio ar fodel y gweithlu.

72 Profodd y Bwrdd Iechyd rai heriau o ran y gweithlu mewn ymateb i'r pandemig, er bod y rhain yn llai difrifol nag a ragwelwyd oherwydd y lefelau isel o COVID-19 a brofwyd ledled y Sir. Bu cynnydd mewn cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch, er bod y cyfraddau'n is na'r disgwyl. Hefyd, roedd 445 o staff yn ynysu neu'n gwarchod rhwng mis Mawrth a mis Mehefin. Mae recriwtio staff nyrsio a bydwreigiaeth yn dal i fod yn her gyda'r Bwrdd Iechyd yn cario 46.66 o swyddi nyrsio gwag cyfwerth ag amser cyflawn.

73 Mewn ymateb i'r heriau o ran y gweithlu fe wnaeth y Bwrdd Iechyd:

- gynnal ymarfer modelu helaeth mewn perthynas â'r gweithlu i roi cymorth i ailfodelu gwasanaethau yn unol â'r ymateb clinigol a newidiadau i'r capasiti gwelyau;
- sefydlu cofrestr adleoli ganolog i gynyddu hyblygrwydd i'r eithaf;
- recriwtio 100 o staff cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol, gan gynnwys myfyrwyr;
- cynnal ymarfer carlam i recriwtio i'r banc staff, gan gyflogi 55 o weithwyr cymorth gofal iechyd a 10 o nyrsys cofrestredig;
- darparu hyfforddiant wedi'i deilwra i staff a adleolwyd neu a oedd newydd gael eu recriwtio; a
- chryfhau'r defnydd o wirfoddolwyr gan gynnwys rhoi memorandwm cyd-ddealltwriaeth ar waith rhwng y Bwrdd Iechyd a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys a datblygu proffiliau rôl penodol ar gyfer gwirfoddolwyr.

74 Mae lles staff yn flaenoriaeth uchel i'r Bwrdd Iechyd gyda sylw ac iddo ffocws pendant ar amddiffyn diogelwch staff a sicrhau eu lles gan gynnwys:

- cynnal arolwg lles staff gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi mewn fformat hygyrch ar YouTube a chamau gweithredu i wella lles yn cael eu cyflawni;
- annog staff i gymryd gwyliau trwy gydol y flwyddyn;
- annog staff i ymgysylltu â grŵp Facebook Cadw'n Iach y Bwrdd Iechyd;
- galluogi staff i gael negeseuon lles wedi'u hawtomeiddio trwy offeryn hunanreoli Florence;
- darparu mynediad ar gyfer staff at y rhaglen therapi ymddygiadol gwybyddol SilverCloud; ac
- asesiadau yn y gweithle'n cael eu hadolygu gan wasanaethau iechyd galwedigaethol gyda chymorth penodol i staff o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn unol â'r dull cenedlaethol ar gyfer asesiadau risg staff.

75 Mae tair risg sy'n ymwneud â'r gweithlu ar y gofrestr risgiau COVID-19. Roedd y risgiau hyn yn ymwneud â throsglwyddo COVID-19 yn y gweithle, capasiti ac arbenigedd annigonol yn y gweithlu i weithredu'r model ymateb clinigol. Gostyngodd yr holl sgoriau risg erbyn mis Mehefin oherwydd camau lliniaru.

76 Gweithiodd y Bwrdd Iechyd gyda Chyngor Sir Powys i ddatblygu model a chynllun llywodraethu wedi'u costio'n llawn ar gyfer Profi, Olrhain, Diogelu. Mae technoleg ddigidol a ffyrdd newydd o weithio wedi cael eu cofleidio gan y Bwrdd Iechyd. Yn y cyfamser, mae gan y Bwrdd Iechyd gyflenwad da o Gyfarpar Diogelwch Personol gyda rhaglen barhaus i sicrhau bod staff yn cael eu mesur ar gyfer mygydau FFP3 lle y bo'n ofynnol gan hyfforddwr Fit2fit cofrestredig.

## Monitro'r modd y cyflawnir y cynllun

### Ceir trosolwg a chraffu da ar berfformiad ar y cyfan a gwaith i gyflawni cynlluniau gweithredol, er bod gwybodaeth am wasanaethau wedi'u comisiynu'n gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd COVID-19

77 Cafodd y trefniadau monitro perfformiad cenedlaethol eu hatal i raddau helaeth gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau'r pandemig. Cafodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau adroddiad trosolwg o berfformiad ym mis Gorffennaf a oedd yn nodi trefniadau ar gyfer monitro perfformiad gwasanaethau a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd a'r rhai a oedd wedi'u comisiynu gan sefydliadau eraill lle'r oedd gwybodaeth ar gael.

78 Roedd trefniadau ar gyfer monitro perfformiad yng nghyfnod cynnar y pandemig trwy ddangosfwrdd y Grŵp Aur yn bennaf, a oedd yn nodi ystod o fetrigau, sgôr CAG a diweddariadau ar safleoedd. Mae'r dangosfwrdd hwn yn sicrhau bod cynnydd a meysydd sy'n achosi pryder yn gallu cael eu hadnabod yn rhwydd a'u huwchgyfeirio ar gyfer gweithredu. Roedd cynllun cyflawni cam un y Bwrdd Iechyd yn nodi'r ffrydiau gwaith a'r camau gweithredu yr oedd yn amcanu at eu cyflawni.

Mae pob adran yng nghynllun chwarter dau yn darparu crynodeb o gyflawniadau chwarter un a blaenoriaethau chwarter dau i'w defnyddio wrth fonitro'r modd y cyflawnir y cynllun yn erbyn y pedwar niwed.

79 Ym mis Gorffennaf, cafodd y Bwrdd adroddiad lefel uchel er gwybodaeth a oedd yn nodi perfformiad yn ystod chwarter un gan gwmpasu Profi, Olrhain, Diogelu a phedwar cwadrant niwed a nodir yn fframwaith gweithredu Llywodraeth Cymru. Cafodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau adroddiadau mwy manwl ar berfformiad, y gweithlu, technoleg ddigidol ac amgylcheddau arloesol. Fe wnaeth y Pwyllgor Profiad, Ansawdd a Diogelwch drafod atal a rheoli heintiau, pryderon a digwyddiadau difrifol a chymorth ar gyfer cartrefi gofal. Fe wnaeth y ddau bwyllgor alluogi craffu a sicrwydd digonol ar gyfer y Bwrdd.

80 Mae'r diffyg gwybodaeth am berfformiad ar gyfer gwasanaethau wedi'u comisiynu'n arbennig o heriol yn ystod COVID-19 gan bod darparwyr yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ymateb i'r pandemig. Er enghraifft, mae 70% o weithgarwch sy'n ymwneud â chleifion allanol yn digwydd y tu allan i'r sir ac fe roddodd darparwyr y gorau i ddarparu data ar amseroedd aros. Teimlwyd yr effaith ar yr amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar draws gwahanol lwybrau clinigol hefyd. Mae gwella trefniadau sicrwydd comisiynu wedi bod yn un o gryfderau allweddol y Bwrdd Iechyd dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r pandemig yn darparu heriau i'r trefniadau presennol, er bod y perthnasoedd a ddatblygwyd wedi helpu i gynnal trefniadau cyfathrebu a darparu sicrwydd.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.